# Y CYNGOR 16/12/10

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd W Tudor Owen (Cadeirydd)
Y Cynghorydd John Gwilym Jones (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** J Endaf Cooke, Anwen Davies, E T Dogan, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Trevor Edwards, Alan Jones Evans, Alun Wyn Evans, Gwen Griffith, Margaret Griffith, E Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllïan, Huw Price Hughes, O P Huws, Aeron M Jones, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Charles Wyn Jones, Dai Rees Jones, Dyfrig Wynn Jones, Eric Merfyn Jones, Evie Morgan Jones, John Wynn Jones, Linda Wyn Jones, R L Jones, Richard Lloyd Jones, Penri Jones, Eryl Jones-Williams, P.G.Larsen, Dewi Lewis, Dewi Llewelyn, June Marshall, Keith Marshall, J Wynn Meredith, Dewi Owen, W Roy Owen, Arwel Pierce, Peter Read, E Caerwyn Roberts, Ieuan Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Siôn Selwyn Roberts, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Paul Thomas, Ann Williams, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, J.W.Williams, Owain Williams, R H Wyn Williams a Robert J Wright.

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Dilwyn O Williams, Dafydd Lewis ac Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dilys Phillips (Swyddog Monitro/Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Perfformiad a Chraffu), Dewi Jones (Pennaeth Addysg), Aled Davies (Pennaeth Rheoleiddio), Gwyn Morris Jones (Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol), Seimon Williams (Rheolwr Prosiect Trefniadaeth Ysgolion) ac Eleri Parry (Arweinydd Tîm Pwyllgorau)

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Dylan Edwards, T G Ellis, Jean Forsyth, Simon Glyn, Keith Greenly-Jones, Louise Hughes, Sylvia Humphreys, J R Jones, Dilwyn Lloyd, Llinos Merks, Linda Morgan, Dafydd Roberts, Glyn Roberts, Trevor Roberts a Guto Rhys Thomas

**1 GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Selwyn Griffiths.

**2 COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2010 fel rhai cywir.

**3 DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

(i) Datganodd yr aelodau oedd yn llywodraethwyr ysgol fuddiant personol yn yr eitem ""Adolygiad o'r Broses Ad-drefnu Ysgolion Gwynedd", oherwydd y gallasai effeithio ar yr adolygiad o'r strwythur ad-drefnu ysgolion.

Roedd yr aelodau o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu,  a chymerasant ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

(ii) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant yn yr eitemau canlynol am y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones yn yr eitem Ad-drefnu Ysgolion Tywyn, oherwydd ei bod yn gadeirydd corff llywodraethol Ysgol Penybryn Tywyn.

- Y Cynghorydd Ioan Thomas yn yr eitem Ad-drefnu Ysgolion Tywyn oherwydd ei fod yn aelod o gorff llywodraethol Ysgol y Gelli ac Ysgol Santes Helen. Hefyd yn yr eitem Adolygu'r Polisi Trwyddedu, oherwydd bod ganddo drwydded eiddo a thrwydded gwerthu alcohol.

- Y Cynghorydd Richard Lloyd Jones yn yr eitem Ad-drefnu Ysgolion Tywyn, oherwydd ei fod yn Rheolwr Cwmni Cludiant yn yr ardal

Roedd yr aelodau o'r farn nad oeddynt yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu, a chymerasant ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

(iii) Datganodd aelodau canlynol fuddiant personol yn yr eitemau canlynol am y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorydd Alun Wyn Evans yn yr eitem Ad-drefnu Ysgolion Tywyn, oherwydd bod ei wraig yn athrawes yn Ysgol Penybryn Tywyn.
- Y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones yn yr eitem Adolygu'r Polisi Trwyddedu, oherwydd bod y trefniadau ynglŷn â thrwyddedu hefyd yn cynnwys trwydded hacni a'i fod yn ddeilydd trwydded hacni

Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu, a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau.

(iv) Datganodd y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol ddiddordeb yn yr eitem Cydweithio/Arbedion, ar ran hi ei hun, ac ar ran y swyddogion oedd yn bresennol oherwydd y gallasai'r mater effeithio ar eu swyddi maes o law.

**4 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(i) Croesawyd y Cynghorwyr Richard Lloyd Jones , Ward Diffwys a Maenofferen a Paul Thomas, Ward Bowydd a Rhiw i'w cyfarfod cyntaf o'r Cyngor llawn.

Hefyd croesawyd Nigel Griffiths o Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod.

(ii) Cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd Gethin Glyn Williams ar golli ei fam, Y Cynghorydd Siân Gwenllïan ar golli ei thad, â'r Cynghorydd Owain Williams ar goll ei fam yng nghyfraith

Hefyd cydymdeimlwyd a phawb arall oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar, a safodd y Cyngor mewn distawrwydd, fel arwydd o barch a chydymdeimlad.

(iii) Llongyfarchwyd Mr Llew Davies, Dirprwy Bennaeth Ysgol Cae Top ar ennill Gwobr Athro'r Flwyddyn, hefyd, Cara Haf Townend o Ysgol Llanaelhaearn ar ennill bws mini i'r ysgol mewn cystadleuaeth arlunio gan gwmni Berol

(iv) Dymunwyd pen-blwydd hapus i'r Cynghorydd Liz Saville Roberts oedd yn dathlu ei phen-blwydd y diwrnod hwnnw, hefyd i'r Cynghorydd Evie Morgan Jones oedd wedi dathlu ei ben-blwydd y diwrnod blaenorol.

(v) Diolchwyd i holl staff y Cyngor am eu hymdrechion arbennig i sicrhau parhad y gwasanaethau yn ystod y tywydd garw.

Ar gais Uwch Arweinydd Portffolio Amgylchedd, adroddodd y Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar y cyflenwad o halen oedd ar gael yn y sir, ar gyfer graeanu yn ystod y tywydd garw disgwyliedig.

(vi) Dymunwyd Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb gan y Cadeirydd.

**Newid trefn y rhaglen**

Cyflwynwyd cais gan aelod i newid trefn y rhaglen, er mwyn trafod adroddiad "Adolygiad o'r Broses Ad-drefnu Ysgolion Cynradd" cyn adroddiad "Ad-drefnu Ysgolion Dalgylch Tywyn"

**PENDERFYNWYD peidio newid trefn y rhaglen.**

## 5 AIL-BENODI AELODAU I'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro ar ail-benodi aelodau i'r Pwyllgor Safonau.

Adroddwyd bod tymor aelodaeth dau aelod annibynnol o'r pwyllgor yn dod i ben yn Chwefror 2011, a bod y ddau'n gymwys i'w hail-benodi am gyfnod pellach o bedair blynedd.

Roedd cefnogaeth unfrydol i ail-benodi'r ddau aelod, ond gofynnwyd i'r Pwyllgor Safonau edrych ar aelodaeth y pwyllgor i'r dyfodol o safbwynt cydbwysedd dynion a merched.

**PENDERFYNWYD ail-benodi Mr Gwilym Ellis Evans a Mr Sam Soysa fel aelodau o'r Pwyllgor Safonau i wasanaethu am gyfnod o bedair blynedd o 24 Chwefror 2011.**

## 6 PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol ar ddyrannu seddau ar y Pwyllgor Cynllunio ar y Cyd ar sail cydbwysedd gwleidyddol.

Adroddwyd bod y Cyngor wedi penderfynu ffurfio Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd gyda 14 aelod, sef 7 aelod o Gyngor Gwynedd a 7 aelod o Gyngor Môn ar sail cydbwysedd gwleidyddol.

Mynegodd Arweinydd y Grŵp Llafur anfodlonrwydd am nad oedd cynrychiolaeth o'r Grŵp Llafur ar y pwyllgor, a phwysodd am gefnogaeth y Cyngor i ganiatáu i aelod o'r Grŵp Llafur wasanaethu ar y pwyllgor.

Adroddodd y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol bod dyraniad seddau Cyngor Gwynedd ar y pwyllgor, sef Plaid Cymru (3), Annibynnol (2), Llais Gwynedd (1), Democratiaid Rhyddfrydol (1) ar sail cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor. Fodd bynnag, eglurodd bod gan y Cyngor hawl i beidio dyrannu seddau ar sail cydbwysedd gwleidyddol, cyn belled nad oedd unrhyw aelod o'r Cyngor yn pleidleisio yn erbyn y trefniant.

Eglurodd ymhellach, y byddai cynyddu nifer y seddau ar y pwyllgor, er mwyn sicrhau bod y Grŵp Llafur yn cael sedd ar sail cydbwysedd gwleidyddol, yn golygu rhoi'r rheolau gweithdrefn o'r neilltu er mwyn dadwneud penderfyniad cyfarfod blaenorol y Cyngor. Hefyd pwysleisiodd y byddai'n golygu ail-negodi'r pwyllgor yn ei gyfanrwydd gyda Chyngor Môn.

Gyda chytundeb cynigydd ac eilydd y cynnig gwreiddiol pleidleisiwyd ar welliant bod rheolau cydbwysedd glweidyddol yn cael eu rhoi o'r neilltu a bod Grŵp Plaid Cymru yn ildio sedd i'r Grŵp Llafur ar y pwyllgor, er mwyn cynnwys cynrychiolaeth o'r Grŵp Llafur ar y pwyllgor.

Adroddodd y Cadeirydd bod y gwelliant wedi syrthio oherwydd i un aelod o'r Cyngor bleidleisio yn ei erbyn, a phleidleisiwyd a phasiwyd y cynnig gwreiddiol.

**PENDERFYNWYD cadarnhau dyraniad 7 sedd Cyngor Gwynedd ar y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd fel a ganlyn:-**

| | |
|---|---|
| **Plaid Cymru** | **3** |
| **Annibynnol** | **2** |
| **Llais Gwynedd** | **1** |
| **Democratiaid Rhyddfrydol** | **1** |

## 7 ADOLYGU'R POLISI TRWYDDEDU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio ar adolygu Polisi Trwyddedu'r Cyngor.

Adroddwyd bod angen i'r Cyngor adolygu ei Bolisi Trwyddedu pob 3 mlynedd, ac mai man newidiadau oedd iddo.

Mynegwyd siom nad oedd y Polisi Trwyddedu wedi bod trwy drefn craffu'r Cyngor. Nodwyd bod angen rhoi sylw i broblemau trosglwyddo trwyddedau, atal niwsans cyhoeddus, a.y.b., ac y dylid cyflwyno'r Polisi i'w graffu'n fanwl gan y pwyllgor perthnasol.

Eglurodd y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol bod rhaid adolygu'r polisi bob tair blynedd, bod y polisi presennol wedi ei fabwysiadu yn Rhagfyr 2007, a bod rhaid cael polisi yn ei le. Eglurodd y byddai'n bosibl derbyn y polisi diwygiedig am y tro, a'i ystyried ymhellach pan fydd wedi'i graffu'n fanwl.

Pwysleisiodd Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu bod y Pwyllgor Trwyddedu wedi rhoi sylw manwl i'r ddogfen bolisi, ac mai man newidiadau yn unig oedd iddi. Hefyd ymgynghorwyd yn eang ar y ddogfen, ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau.

Cyfeiriodd aelod at wallau ffeithiol ac anghysondebau rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, a phwysleisiodd bod angen gwirio'r ddogfen yn ofalus cyn ei chyhoeddi.

**PENDERFYNWYD derbyn y Polisi Trwyddedu diwygiedig, ond gofyn am gyflwyno'r Polisi Trwyddedu er ystyriaeth fanwl Pwyllgor Craffu Amgylchedd, ac yna'i gyflwyno drachefn i'r Cyngor llawn.**

## 8 AD-DREFNU YSGOLION DALGYLCH TYWYN

Cyflwynwyd:-

(a) Adroddiad Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol ar argymhellion i ad-drefnu ysgolion dalgylch Tywyn.

(b) Argymhellion Bwrdd y Cyngor yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr 2010 parthed ad-drefnu ysgolion y dalgylch

(c) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Arweinydd Portffolio Ysgolion.

Cyfeiriodd at y rhesymau dyrys dros ad-drefnu ysgolion cynradd y Sir, sef, niferoedd disgyblion yn syrthio'n gyson, penaethiaid dan straen ac yn gadael, rhieni'n dewis symud eu plant i ysgolion mwy, ac ysgolion yn cau'n ddisymwth a di-gynllun, megis ysgolion Rhydyclafdy, Croesor a Llawrybetws.

Eglurodd bod oll o'r nodweddion uchod i'w gweld yn nalgylch Tywyn, gyda holl blant Ysgol Abergynolwyn yn mynychu Ysgol Bryncrug erbyn hyn, bron i 50% o blant cynradd Llwyngwril yn teithio oddi allan i'r gymuned am eu haddysg, a thros 30% o blant Aberdyfi yn mynychu Ysgol Penybryn Tywyn a chylchoedd meithrin y dref.

Pwysleisiodd bod y sefyllfa ar fin mynd ar chwâl, gydag ysgolion y dalgylch mewn perygl o gau fesul un, a'r plant yn mynychu Ysgol Penybryn, os na fydd y Cyngor yn gwneud penderfyniad ynglŷn ag addysg y dalgylch.

Eglurwyd bod cyfanswm o £7.8m o arian cyfalaf wedi ei gadarnhau ar gyfer addysg yn y dalgylch, sef £5.4m o gyllid cyfalaf gan y Cynulliad a chyfraniad o £2.4m gan y Cyngor.  Nododd bod y Cynulliad wedi penderfynu oedi'r grant am flwyddyn, ond pwysleisiodd bod llythyr i law yn cadarnhau bod yr arian ar gael.

Adroddwyd bod Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc wedi cymeradwyo'r argymhellion yn adroddiad y Cyfarwyddwr, a bod y Bwrdd hefyd wedi eu cymeradwyo, heblaw am drefniadau cau Ysgol Aberdyfi. Eglurwyd bod aelodau'r Bwrdd wedi gofyn am wybodaeth ynglŷn â goblygiadau ymestyn dyddiad cau'r ysgol erbyn y Cyngor llawn, bod gwaith wedi ei gyflawni erbyn hyn, a manylodd ar yr oblygiadau hynny.

Hefyd adroddodd  bod y Bwrdd, oherwydd pryderon rhieni ynglŷn â chludo plant mewn bysus, wedi  penderfynu y dylid darparu trefniant trosiannol dros dro fel bod oedolyn ychwanegol yn teithio gyda'r gyrrwr bys, a bod gwregysau diogelwch yn cael eu gosod yn y bysus ysgol. Pwysleisiwyd nad oedd yn fwriad disodli unrhyw bolisïau perthnasol eraill oedd yn bodoli yn y sir.

Wrth gloi, pwysleisiodd bod y Cyngor wedi llwyddo i ennill arian cyfalaf sylweddol oddi wrth y Cynulliad oherwydd bod ganddo gynllun busnes cystadleuol. Nododd y bydd methu gweithredu'r model ad-drefnu a gyflwynwyd gerbron y Cynulliad, yn debygol o arwain at yr angen i ail-negodi'r cynllun busnes, a bydd o bosibl yn peryglu hyfywdra'r cynllun yn ei gyfanrwydd. Pwysleisiodd bod dyfodol ysgol ardal newydd Bro Dysynni yn dod â phob math o gyfleoedd addysgol newydd i blant y fro, ac yn diogelu Cymreictod y fro.  Pwysodd ar yr aelodau i gefnogi argymhellion y Bwrdd.

(ch) Nododd aelod ei fod yn gwrthwynebu'r cynllun oherwydd bod sefydlu ysgol ardal yn amddifadu cymunedau o adnoddau pwysig, a mynegodd bryder bod y cynllun yn groes i farn y cymunedau ac yn risg ariannol a chyfreithiol i'r Cyngor. Nododd sawl aelod eu bod yn rhannu pryderon yr aelod

Ymdriniwyd â'r argymhellion fesul un.

(d)(i) Yn unol â Rheol Gweithdrefn 15(1) derbyniodd y Cadeirydd ddeiseb gan aelod Bryncrug wedi'i harwyddo gan drigolion Bryncrug a Dyffryn Dysynni yn gofyn i'r Cyngor ail-ystyried penderfyniad y Bwrdd a lleoli'r ysgol ardal newydd yn ardal Bryncrug.

Diolchodd y Cadeirydd am y ddeiseb a fydd yn cael ei throsglwyddo i'r gwasanaeth perthnasol.

(ii) Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i wyrdroi penderfyniad y Bwrdd a lleoli'r ysgol ardal newydd ym Mryncrug, yn unol â chais trigolion cymuned Bryncrug ac Abergynolwyn.

Adroddodd aelod Bryncrug bod trigolion Bryncrug ac Abergynolwyn wedi bod yn gefnogol i'r egwyddor o sefydlu ysgol ardal, a bod dyhead i godi'r ysgol mewn safle mor niwtral â phosibl a chydymffurfio â barn y pedair ysgol fyddai'n cynnal yr ysgol maes o law.

Pwysleisiodd bod y methiant i sicrhau safle niwtral ar gyfer yr ysgol, ac yna'r penderfyniad i ffafrio safle Llanegryn, yn hytrach na Bryncrug, wedi bod yn ergyd drom i drigolion Bryncrug ac Abergynolwyn.

Nododd bod y rhesymau dros ddewis safle Llanegryn dros Fryncrug yn ddadleuol a gwantan, a manylodd ar ragoriaethau safle Bryncrug gan gynnwys bodloni'r angen am adnodd cymunedol ym mhentref Bryncrug. Pwysleisiodd bod Llanegryn eisoes yn berchen ar Neuadd bentref gwerth chweil.

(ii) Mewn ymateb manylodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar resymau'r Bwrdd dros ffafrio safle Llanegryn, sef roedd y lleoliad yn ganolog i'r dalgylch cyfan, roedd materion technegol o ran argaeledd y safle ac roedd y safle'n haws ei ddatblygu. Hefyd roedd safle Llanegryn yn cyd-fynd orau gyda'r dyhead ar gyfer ysgol mewn ardal wledig, a nodwyd bod pentref Bryncrug yn agos iawn i Dywyn, a bod perygl y byddai datblygu ysgol newydd mor agos yn cael effaith negyddol ar Ysgol Penybryn Tywyn.

Syrthiodd y gwelliant i leoli'r ysgol ardal newydd yn ardal Bryncrug.

Gofynnodd y cynghorwyr canlynol am gael cofnodi eu bod wedi pleidleisio o blaid y gwelliant:- Y Cynghorwyr Endaf Cooke, Anwen Davies, Alwyn Gruffydd, Aeron Maldwyn Jones, Richard Lloyd Jones, Arwel Pierce, Peter Read, Gethin Glyn Williams, Owain Williams a Bob Wright,

Adroddodd y Cadeirydd bod y gwelliant wedi syrthio, a phleidleisiwyd a phasiwyd y cynnig gwreiddiol i gymeradwyo cychwyn proses o ymgynghoriad yn unol ag Adran 28 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i sefydlu'r ysgol ardal gymunedol i agor yn ystod blwyddyn ysgol 2013-14 ar safle 1 yn Llanegryn yn amodol ar ganlyniad y broses o gau ysgolion Bryncrug, Llanegryn Llwyngwril ac Abergynolwyn;

Gofynnodd y cynghorwyr canlynol am gael cofnodi eu bod wedi pleidleisio yn erbyn y cynnig:- Y Cynghorwyr Endaf Cooke, Anwen Davies, Alwyn Gruffydd, Aeron Maldwyn Jones, Richard Lloyd Jones, Arwel Pierce, Peter Read, Gethin Glyn Williams. Owain Williams a Bob Wright,

(dd) (i) Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i ymestyn cyfnod cau Ysgol Aberdyfi hyd nes bydd y gwelliannau wedi eu cwblhau yn Ysgol Penybryn.

(ii) Cyfeiriodd aelod Aberdyfi at y ffaith bod £2.4m o'r grant cyfalaf tuag at adnewyddu ysgolion eraill yr ardal, gan gynnwys newidiadau Ysgol Penybryn ar gyfer derbyn plant Ysgol Aberdyfi. Pwysodd am gefnogaeth i ymestyn dyddiad cau Ysgol Aberdyfi hyd nes bydd gwelliannau wedi eu cwblhau yn Ysgol Penybryn.

(iii) Mewn ymateb, eglurodd y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol bod rhaid cael dyddiad penodol at ddibenion cyhoeddi rhybuddion ymgynghori statudol. Hefyd eglurodd ymhellach bod y gwelliant yn newid sylweddol i'r hyn a ymgynghorwyd arno eisoes, ac y byddai angen ail-ymgynghori ar y mater.

(iv) Adroddodd Arweinydd Portffolio Ysgolion bod sefyllfa Ysgol Aberdyfi'n fregus iawn gyda 70% o lefydd gweigion a Phennaeth dros dro yn yr ysgol. Nododd bod 30% o blant y pentref eisoes yn mynychu Ysgol Penybryn Tywyn neu gylchoedd meithrin y dref. Pwysleisiodd bod gwariant yn ddwywaith yn uwch na chyfartaledd y sir, ac eglurodd y byddai symud y plant i Ysgol Penybryn yn golygu cyllid ychwanegol o £57,000 ar gyfer Ysgol Penybryn. Hefyd nododd y byddai cludiant yn rhad ac am ddim i blant oedd yn symud o Ysgol Aberdyfi I Ysgol Penybryn.

Eglurodd na fydd modd cyflawni'r newidiadau i adeilad Ysgol Penybryn erbyn Awst 2011, ond nododd y dylid ceisio blaenoriaethu'r gwaith ar yr ysgol, a bod modd defnyddio arian cyfatebol y Cyngor I gyflawni'r gwaith tan fydd arian y Cynulliad wedi dod i mewn.

Pleidleisiwyd a phasiwyd gwelliant i gau ysgol Aberdyfi yn ystod y flwyddyn ysgol 2013-14 a chyhoeddi rhybuddion statudol yn nodi dyddiad cau penodol o 31 Awst 2013 gyda'r nod o gau'r ysgol pan fydd gwelliannau i Ysgol Penbryn wedi eu cwblhau.

Adroddodd y Cadeirydd bod y gwelliant wedi cymryd lle'r cynnig gwreiddiol. Pleidleisiwyd a phasiwyd y cynnig fel ag yr oedd wedi'i wella.

(e) Cyfeiriodd sawl aelod at bryderon rhieni ynglŷn â chludo plant mewn bysus yn sgil y newidiadau. Nodwyd bod Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc hefyd wedi mynegi pryder ynglŷn â'r sefyllfa, a chroesawyd y bwriad i ddarparu trefniant trosiannol dros dro fel bod oedolyn ychwanegol yn teithio gyda'r gyrrwr bys a bod gwregysau diogelwch yn cael eu gosod yn y bysus ysgol.

**PENDERFYNWYD i:-**

**(i) gymeradwyo cau Ysgol Abergynolwyn erbyn 31 Mawrth 2011 a chyhoeddi rhybuddion statudol i'r perwyl hwn;**

**(ii) gymeradwyo cau ysgolion Bryncrug, Llanegryn a Llwyngwril yn ystod y flwyddyn ysgol 2013-14 a chyhoeddi rhybuddion statudol yn nodi**

**dyddiad cau penodol o 31 Awst 2013 gyda'r nod o gau'r ysgolion pan fydd yr ysgol ardal newydd yn agor;**

**(iii) gymeradwyo cychwyn proses o ymgynghoriad yn unol ag Adran 28 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i sefydlu'r ysgol ardal gymunedol i agor yn ystod blwyddyn ysgol 2013-14 ar safle 1 yn Llanegryn yn amodol ar ganlyniad y broses o gau ysgolion Bryncrug, Llanegryn Llwyngwril ac Abergynolwyn;**

**(iv) gymeradwyo ymgymryd â phroses ymgynghori ar y bwriad diwygiedig i gau Ysgol Aberdyfi yn ystod y flwyddyn ysgol 2013-14, 31 Awst 2013, gyda'r nod o gau'r ysgol unwaith mae'r gwelliannau i Ysgol Penybryn wedi eu cwblhau;**

**(v) wneud newid rhagnodedig i Ysgol Penybryn, Tywyn, trwy ganiatáu i Ysgol Penybryn roi mynediad i ddisgyblion oedran meithrin yn unol â pholisi'r Cyngor o Fedi 2011 a chyhoeddi rhybuddion statudol i'r perwyl hwn;**

**(vi) bod y Cyngor yn deall bod rhieni'n bryderus am gludo plant mewn bysus am y tro cyntaf yn sgil newidiadau ad-drefnu ysgolion cynradd yn nalgylch Tywyn. Bwriedir darparu trefniant trosiannol lleol dros dro fel y bydd oedolyn ychwanegol yn teithio gyda gyrrwr y bws sy'n cludo plant o Aberdyfi i Benybryn, Tywyn ac yn ôl, ac o Abergynolwyn, Bryncrug a Llwyngwril i'r ysgol ardal newydd ac yn ôl. Adolygir y trefniant trosiannol ar ôl iddo fod yn weithredol am dymor ysgol. Hefyd fe'i gwneir yn amod tendro bod gwregysau diogelwch wedi'u gosod mewn bysus ysgol wrth gytuno cytundebau cludiant newydd yn sgil ad-drefnu yn ardal Tywyn. (Noder na fwriedir iddo ddisodli unrhyw bolisïau perthnasol eraill sy'n bodoli yn y sir)**

## 9 ADOLYGIAD O'R BROSES AD-DREFNU YSGOLION GWYNEDD

Cyflwynwyd

(a) Adroddiad Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol ar newid prosesau ad-drefnu ysgolion Gwynedd yn dilyn adolygiad o'r broses

(b) Argymhellion Bwrdd y Cyngor yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr 2010 parthed newid y prosesau.

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Arweinydd Portffolio Addysg, a rhoddwyd amlinelliad o'r cyd-destun polisi a'r prif faterion oedd wedi amlygu'r angen i newid prosesau ad-drefnu ysgolion Gwynedd.

Nodwyd bod y prosesau wedi derbyn cefnogaeth Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc a Bwrdd y Cyngor. Yn ychwanegol, oherwydd pryder dybryd ynglŷn â chyflwr argyfyngus rhai adeiladau, eglurodd bod y Bwrdd wedi penderfynu y dylid rhoi llawer mwy o flaenoriaeth i sefyllfaoedd argyfyngus, a chynllunio rhaglen ymateb, gan gychwyn trwy ddechrau cynllun ad-drefnu yn y Groeslon a'r ardal gyfagos.

Cyfeiriwyd at bapur a atodwyd i'r adroddiad oedd yn cyfleu barn cynrychiolwyr Ffederasiwn Prifathrawon Ysgolion Cynradd Gwynedd. Nodwyd bod y Ffederasiwn o'r farn bod y broses ad-drefnu bresennol yn

araf, yn feichus ac yn ailadroddus. Hefyd roedd o'r farn bod y broses yn anghynaladwy ac angen ei hadolygu. Nodwyd hefyd bod Cadeirydd Grŵp Ymgynghorol Cynrychiolwyr Athrawon Cynradd Gwynedd yn pwyso ar y Cyngor i yrru'r broses ad-drefnu ymlaen ac osgoi unrhyw oedi.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Cynnwys gweddill darpariaeth addysgol y sir yn y broses o'r meithrin, cynradd, uwchradd, arbennig, a champysau gydol oes;**
**(ii) Ail-sefydlu Gweithgor Gwella Trefniadaeth Addysg dan arweiniad Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc i gymryd trosolwg o holl ddarpariaeth addysgol y sir;**
**(iii) Derbyn yr angen i resymoli nifer ysgolion yn y sir er mwyn sicrhau rhwydwaith o'r niferoedd cywir o ysgolion, o'r math cywir, yn y lleoliadau cywir;**
**(iv) Cymryd ystyriaeth lawn o'r cyd-destun cenedlaethol a sirol, gan gynnwys materion cyllidol a'r angen i ddatblygu rhaglen fuddsoddi cyfalaf tymor hir;**
**(v) Cynnal ystod eang o waith rhagbaratoi yn ystod y misoedd nesaf er mwyn darparu'r wybodaeth ar gyfer y trafodaethau a chyflymu'r adolygiadau dalgylch;**
**(vi) Cynnal asesiad sylfaen o faterion ieithyddol, cymunedol, economaidd a chydraddoldeb ar draws y sir a chynnal asesiad cychwynnol o effaith rhai o'r modelau ad-drefnu posib ar y materion hynny;**
**(vii) Rhoi llawer mwy o flaenoriaeth i sefyllfaoedd argyfyngus a chynllunio rhaglen ymateb, gan nodi'r bwriad i gychwyn trwy ddechrau cynllun ad-drefnu yn Y Groeslon a'r ardal gyfagos;**
**(viii) Parhau i gynnal adolygiadau ar lefel dalgylch a thrwy ymgynnull Panel Adolygu Dalgylch ar sail y gwaith rhagbaratoi a nodir yn adroddiad y Cyfarwyddwr;**
**(ix) Sicrhau fod Aelodau lleol yn cyfarfod yn ystod y broses o ad-drefnu dalgylch.**

**10 CYDWEITHIO/ARBEDION**

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr yn gofyn i'r Cyngor ystyried argymhellion ar gynnig arbedion categori C ynghylch uwch reolwyr fel rhan o'r fframwaith arbedion £16m, ynghyd ag ystyried cyfle amgen am arbedion drwy'r potensial o gydweithio ar raddfa fawr gyda Chyngor Sir Ynys Môn.

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Arweinydd y Cyngor, ac ychwanegodd bod Cyngor Sir Ynys Môn wedi cefnogi comisiynu gwaith fydd yn gwyntyllu cryfderau a gwendidau cydweithio ffurfiol rhwng y ddau gyngor.

Manylodd y Prif Weithredwr ar ei resymau dros argymell peidio gostwng lefel uwch reolwyr y Cyngor ymhellach. Amlinellodd buddion a risgiau cydweithio, ac adroddodd y byddai astudiaeth sgopio yn rhoi gwell dealltwriaeth o'r buddion a'r risgiau hynny.

Roedd yr holl aelodau'n gefnogol i'r astudiaeth sgopio, ond nodwyd y prif sylwadau canlynol:-

- bod cefnogaeth y ddau Gyngor yn bwysig er mwyn i'r cydweithio llwyddo;
- ei bod yn synhwyrol i Gyngor Gwynedd a Chyngor Môn gydweithio, ond bod angen cynnal astudiaeth sgopio er mwyn cael sicrwydd y bydd cydweithio rhwng y ddau gyngor yn arwain at well effeithlonrwydd ac yn esgor ar arbedion ariannol sylweddol;
- gan gyfeirio at y cydweithio rhanbarthol oedd yn digwydd mewn sawl maes ar draws Gogledd Cymru, roedd aelod o'r farn bod y rhanbarth yn llawer rhy fawr, a mynegodd bryder bod bwriad darparu gwasanaethau eraill yn rhanbarthol. Awgrymodd y dylid gofyn i'r gweinidog beth oedd ei weledigaeth tymor hir ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru;
- bod angen i'r astudiaeth sgopio fod yn drylwyr, a bod yr amserlen arfaethedig o gyflwyno canlyniadau'r astudiaeth i'r ddau awdurdod erbyn Chwefror 2011 yn rhy heriol. Awgrymwyd y dylid hysbysu'r gweinidog bod Cyngor Gwynedd yn dymuno iddo ymestyn yr amserlen er mwyn sicrhau amser digonol ar gyfer cyflawni astudiaeth drylwyr.

**PENDERFYNWYD:-**

**(a) Peidio ystyried ymhellach cynllun opsiwn C ar gyfer gostwng uwch reolwyr ymhellach ar hyn o bryd.**

**(b) Ymchwilio ymhellach i gyfleoedd cydweithio ar raddfa fawr gyda Chyngor Môn yn unol ag egwyddorion yr astudiaeth sgopio ym mhapur y Gweinidog yn Atodiad 1 i'r adroddiad, fel modd amgen o ostwng gorbenion rheolwyr a gwireddu arbedion. Bod hyn ar yr amod na fyddai'r Cyngor hwn yn ymrwymedig i dderbyn na gweithredu darganfyddiadau'r astudiaeth ac na fyddai unrhyw drefniant cydweithio yn arwain at ddirywiad yn safon y gwasanaeth.**

## 11 RHYBUDDION O GYNNIG

(a) (i) Cyflwynwyd - y rhybudd o gynnig canlynol a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Endaf Cooke o dan Reol Gweithdrefn rhif 13 ynghyd â rhybudd trefniadaethol o dan Reol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am drafod y cynnig yn y Cyngor heb ei gyfeirio i bwyllgor yn gyntaf:-

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

*"Bod Cyngor Gwynedd yn symud ymlaen ar frys i sicrhau fod arwyddion yn cael eu gosod yn nhref Caernarfon a mannau eraill poblog, er atal cŵn rhag rhedeg yn rhydd, heb fod ar dennyn"*

(ii) Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio yn hysbysu'r aelodau ynglŷn â'r materion oedd i'w hystyried er mwyn sefydlu

Gorchmynion Rheoli Cwm dan Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005.

Eglurodd y Pennaeth bod oblygiadau ariannol sylweddol ynghlwm â chreu a gorfodi Gorchmynion Rheoli Cŵn, ac nad oedd arian wedi ei ddarparu ar gyfer creu a gorfodi Gorchmynion Rheoli Cwm. Awgrymodd bod Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd yn edrych ar ymarferoldeb gweithredu gorchmynion newydd ac yn y cyfamser y byddai yr Adran yn cymryd camau gweithredol sydyn i ymateb i broblemau sy'n bodoli.

**PENDERFYNWYD cyfeirio'r rhybudd o gynnig i sylw Pwyllgor Craffu yr Amgylchedd.**

(b) Cyflwynwyd - y rhybudd o gynnig canlynol a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Dyfed Edwards o dan Reol Gweithdrefn rhif 13 ynghyd â rhybudd trefniadaethol o dan Reol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am drafod y cynnig yn y Cyngor heb ei gyfeirio i bwyllgor yn gyntaf:-

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

*"Mae Cyngor Gwynedd yn cefnogi pwerau deddfu llawn i'r Cynulliad Cenedlaethol o fewn y meysydd sydd wedi'u datganoli. Bydd hyn yn cyflymu'r broses ddemocratig yng Nghymru ac yn dileu'r broses drwsgl sydd gennym ar hyn o bryd, er budd llywodraeth leol a chenedlaethol."*

Er mwyn ceisio sicrhau cymaint o gefnogaeth a phosibl i'r ymgyrch a gyda chytundeb cynigydd a'r eilydd y cynnig gwreiddiol, pleidleisiwyd ar y gwelliant canlynol,-

*"Mae Cyngor Gwynedd yn cefnogi pwerau deddfu llawn i'r Cynulliad Cenedlaethol o fewn y meysydd sydd wedi'u datganoli. Bydd hyn yn cyflymu ac yn cryfhau'r broses ddemocratig yng Nghymru, er budd llywodraeth leol a chenedlaethol."*

Adroddodd y Cadeirydd bod y gwelliant wedi cymryd lle'r cynnig gwreiddiol. Pleidleisiwyd a phasiwyd y cynnig fel ag yr oedd wedi'i wella.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r rhybudd o gynnig canlynol:-**

**"Mae Cyngor Gwynedd yn cefnogi pwerau deddfu llawn i'r Cynulliad Cenedlaethol o fewn y meysydd sydd wedi'u datganoli. Bydd hyn yn cyflymu ac yn cryfhau'r broses ddemocratig yng Nghymru, er budd llywodraeth leol a chenedlaethol."**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 p.m. a daeth i ben am 3.40 p.m.